**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

9 Ionawr 2020

Annwyl Rebecca

**Ymchwiliad i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb**

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am **ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Cyllid i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb**. Fel y gwyddoch efallai, mae'r Pwyllgor wedi bod mewn cyswllt â Daniel Greenberg (cyfreithiwr sy'n arbenigo mewn deddfwriaeth a'r broses ddeddfwriaethol) ac wedi cymryd tystiolaeth gan Dr Joachim Wehner ar arfer gorau rhyngwladol wrth graffu ar gyllidebau.

Er ein bod yn cydnabod bod y broses gyllidebol a'r setliad datganoli yng Nghymru yn wahanol i'r rhan fwyaf o wledydd eraill, mae'r Alban wedi bod yn trafod materion tebyg iawn. Felly, roedd gwaith casglu tystiolaeth y Pwyllgor yn cynnwys cyfarfod ffurfiol a gynhaliwyd yng Nghaeredin i ddysgu o waith Grŵp Adolygu Proses y Gyllideb yr Alban.

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y byddai proses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb yn adlewyrchu aeddfedrwydd y Cynulliad yn well, gan roi cyfle i adolygu priodoldeb y broses gyllidebol bresennol, gwella tryloywder a chryfhau rôl Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad ar ôl datganoli pwerau cyllidol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi llwyddiant y dull a fabwysiadwyd yn yr Alban i sefydlu grŵp i adolygu'r broses gyllidebol bresennol yn sylfaenol ac mae'n credu y gallai dull tebyg fod yn addas yng Nghymru.

Mae'r Aelodau'n cytuno y dylai egwyddorion symlrwydd, tryloywder ac atebolrwydd fod wrth wraidd unrhyw broses ddeddfwriaethol, ac yn cydnabod yr angen i ystyried sut y byddai proses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb yn darparu ar gyfer penderfyniadau treth, yn ymgorffori cynigion gwariant, trethiant neu fenthyca eraill, yn cyd-fynd â phrosesau Swyddfa Archwilio Cymru, yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer oedi ar lefel y DU, ac yn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Credwn fod angen gwneud rhagor o waith hefyd i ganfod:

- a fyddai Bil Cyllideb neu Fil Cyllid yn fwy addas ar gyfer awdurdodi cynlluniau gwariant a threthi Cymru;
- sut y byddai modelu Llywodraeth Cymru a rhagolygon annibynnol yn cael eu hymgorffori yn y broses;
- sut a phryd y gellid gwneud gwelliannau i Fil, gan barhau i sicrhau gallu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb ei hun;
- yr effaith ar waith craffu ariannol ehangach y Cynulliad, megis craffu yn ystod y flwyddyn, y gyllideb ddrafft a chraffu ar Filiau;
- y disgwyliadau ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllidebau aml-flwyddyn, yn enwedig i lywodraeth leol a phartneriaid cyflenwi.

Yn y tymor byr, byddai datblygu amserlen ar gyfer gwaith craffu yn y Cyfarfod Llawn yn gwella ansawdd a chyfranogiad yn y broses bresennol o graffu ar y gyllideb. Felly, byddem yn eich annog i drefnu dadl ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ym mis Mai/Mehefin i lywio'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich presenoldeb yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod safbwynt y Llywodraeth ynghylch symud i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â Chlercod y Pwyllgor Cyllid i drefnu amser sy'n gyfleus i chi ddod i'r Pwyllgor. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech anfon papur atom cyn y sesiwn.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd